# Cadw fy hun, fy arian a'r eiddo sydd gen i yn ddiogel

## Canllaw i bobl ifanc yn Sir Gâr

Adnodd 12 o 12

Mae'n bosib hoffet ti ddarllen yr adnoddau hyn hefyd:

- Arian - Rhoi rhywfaint o arian heibio
- Cynghorion Siopa am Fwyd
- Cyllidebu

Prosiect Paratoi

**Cysylltiadau defnyddiol:**

- Yr Heddlu (di-frys) - 101
- Os bydd arogl nwy - 0800 111 999
- Os byddi heb ddŵr - 0800 052 0130

# CADW'N DDIOGEL YN DY GARTREF

Dy le di yw dy gartref, lle i ti a'r bobl rwyt ti eisiau iddyn nhw fod yno. Dyma rai cynghorion i aros yn ddiogel yn dy gartref

## Diogelwch

- Meddwl am y bobl rwyt ti'n eu gwahodd i mewn i'th gartref
- Bydd yn ofalus os byddi di'n cael parti - gwna'n siŵr mai pobl sydd wedi cael gwahoddiad yn unig sy'n dod draw
- Os bydd angen i rywun o'r cwmni band eang neu un o'r cyfleustodau (trydan, nwy ac ati) ddod i mewn i'th gartref, gofala dy fod ti'n gwirio pwy ydyn nhw
- Paid byth â rhoi dy fanylion banc i neb sy'n dy ffonio di. Fydd dy fanc **byth** yn gofyn i ti ddatgelu dy rif adnabod personol (PIN) na manylion diogelwch dy gyfrif
- Rhwyga dderbynebau a llythyrau sy'n cynnwys dy gyfeiriad neu wybodaeth am dy gerdyn

### Darllen Fi!!

Treulia ychydig o amser yn edrych ar y wefan isod er mwyn osgoi cael dy dwyllo **https://takefive-stopfraud.org.uk/consumer-advice/**

## Cynlluniau Arian Rhwydd ('Easy Money')

- Gwylia rhag sgamiau sy'n gofyn i ti ddal arian yn dy gyfrif ar ran rhywun arall
- Mae'n bosib y byddan nhw'n cael eu hysbysebu fel swydd ar y cyfryngau cymdeithasol gyda theitl fel 'asiant trosglwyddo arian', 'proseswyr lleol'
- Neu gallan nhw gael eu hysbysebu fel benthyciad 'hwylus'
- Pan ddaw'r arian i mewn i'th gyfrif bydd gofyn i ti drosglwyddo'r arian i rywun arall ond byddi'n cael cadw swm bach i ti dy hun
- Mae hyn yn ffordd i droseddwyr 'lanhau' arian brwnt o weithgareddau troseddol
- Byddi di'n dod yn asyn arian ('money mule' yn Saesneg)
- Byddi **di'n** cyflawni gweithred droseddol a gallet **ti** gael dy anfon i'r carchar a'th atal rhag cael cyfrif banc neu fenthyg arian yn y dyfodol.

## Benthycwyr Arian Didrwydded (Loan Sharks)

- Paid â chael dy demtio i fenthyg arian gan fenthycwyr didrwydded neu fenthycwyr stepen drws.
- Gall y rhain fod yn bobl rwyt ti wedi'u gweld yn dy gymdogaeth ac sy'n ymddangos yn gyfeillgar
- Ond byddan nhw'n bygwth ac yn codi ofn arnat ti
- Byddan nhw'n mynnu bod arnat ti lawer mwy o arian nag sydd arnat ti mewn gwirionedd
- Mae benthycwyr stepen drws yn anghyfreithlon
- Os wyt ti'n poeni am hyn, cysyllta â'r heddlu neu cysyllta ag Uned Benthyca Arian Anghyfreithlon Cymru imlu@cardiff.gov.uk

### Galwyr Digroeso

Mae galwyr digroeso yn dod i'r drws ac yn ceisio gwerthu pethau i ti neu'n ceisio dy berswadio i ymuno â phethau ac ati, a gallan nhw fod yn eithaf digywilydd. Defnyddia boster fel yr un yma i atal galwyr digroeso

## Yr Heddlu Lleol

- Ceisia ddod i nabod Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs), fydd yn adnabod yr ardal leol yn dda: Sir Gâr- **https://www.dyfed-powys.police.uk/cy/eich-ardal/sir-gaerfyrddin/**

**Gwefannau defnyddiol**


- Sut mae adnabod neges e-bost gwe-rwydo (phishing)
  https://www.moneyadviceservice.org.uk/blog/how-to-spot-and-report-fake-emails-and-phishing-scams
- Cadw dy hun yn ddiogel ar-lein
  https://www.bt.com/skillsfortomorrow/daily-life/keeping-yourself-safe-online.html
  https://www.thinkuknow.co.uk/
  https://www.saferinternet.org.uk/advice-centre/young-people/resources-11-19s
- Siopa'n ddiogel ar-lein
  https://www.getsafeonline.org/shopping-banking/shopping1/
  https://www.moneyadviceservice.org.uk/en/articles/shop-safely-online

# CADW'N DDIOGEL AR-LEIN

Mae ein bywydau'n digwydd mwy a mwy ar-lein felly mae'n bwysig ein bod ni'n meddwl sut mae cadw'n hunain yn ddiogel. Yma rydyn ni'n trafod ffyrdd o wneud hynny.

## Siopa Ar-lein

- Os wyt ti'n dewis siopa ar-lein, gwna'n siŵr dy fod ti'n defnyddio gwefan ddiogel.
- Bydd gan wefan ddiogel glo clap (padlock) yn y bar cyfeiriadau




- Ar safleoedd marchnad ar-lein, gwylia rhag cynigion sy'n edrych yn rhy dda. Wyt ti'n gwybod beth yn union rwyt ti'n ei brynu?

- Gwna'n siŵr dy fod ti'n gosod cyfrinair neu PIN i ddatgloi dy ffôn
- Os byddi di'n colli'r ffôn, bydd yna haen ddiogelwch ychwanegol i atal pobl rhag edrych ar dy wybodaeth

## Gwe-rwydo

- Mae'r term yma'n disgrifio negeseuon e-bost sy'n cael eu hanfon gan dwyllwyr sy'n gofyn am fanylion banc neu am wybodaeth bersonol fel cyfrineiriau
- Byddan nhw'n defnyddio'r wybodaeth honno wedyn i brynu pethau, cael cardiau credyd ac ati
- Fydd dy fanc byth yn gofyn i ti anfon dy fanylion banc mewn neges e-bost
- Fydd dy fanc byth yn gofyn i ti glicio ar ddolen oherwydd bod dy gyfrif mewn perygl
- Bydd rhai negeseuon e-bost yn ymddangos yn real iawn felly gwiria'r cyfeiriadau e-bost a ddefnyddiwyd i'w hanfon. Er enghraifft, bydd neges e-bost gan fanc Barclays yn dod o gyfeiriad sy'n gorffen @Barclays.co.uk

## Diogelwch Cyffredinol Ar-lein

- Gwiria dy osodiadau diogelwch ar y cyfryngau cymdeithasol
- Gofala dy fod ti ddim yn datgelu mwy nag rwyt ti eisiau, ac mae'r bobl iawn sy'n gweld dy negeseuon, h.y. dewis y gosodiad 'post to friends only'
- Ydy'r bobl rwyt ti'n siarad â nhw ar-lein yn dweud y gwir am pwy ydyn nhw?
- Paid â gwneud dim ar-lein sy'n gwneud i ti deimlo'n anghyfforddus, er enghraifft, anfon lluniau rhy bersonol at bobl
- Defnyddia gyfrinair gwahanol ar bob cyfrif rwyt ti'n ei ddefnyddio
- Defnyddia gyfrineiriau cymhleth. Paid â defnyddio 'password123'
- I gael gwybod oes rhywun wedi hacio dy e-bost, defnyddia https://haveibeenpwned.com/



Os wyt ti am wella dy sgiliau ar-lein, rho gynnig ar hwn:

- https://www.bt.com/skillsfortomorrow/
- https://barclayslifeskills.com/

### Gwirio dy osodiadau preifatrwydd

- Facebook
  **https://www.facebook.com/about/basics/manage-your-privacy?utm_source=google&utm_medium=sem&utm_campaign=ofa**
- Snapchat
  **https://support.snapchat.com/en-GB/a/privacy-settings2**
- Instagram
  **https://help.instagram.com/196883487377501**
- Tik Tok
  **http://support.tiktok.com/en/privacy-safety**

# Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL AC ATI

Wyt ti'n gwybod faint o wybodaeth rwyt ti'n ei datgelu trwy'r cyfryngau cymdeithasol? Byddwn ni'n edrych yma ar sut mae gofalu am dy breifatrwydd.

## Beth ydw i'n ei ddatgelu?

- Pa wybodaeth sydd ar gael trwy dy gyfrifon ar y cyfryngau cymdeithasol?
- Dy ben-blwydd?
- Lluniau o'th gartre?
- Dy gyfeiriad?
- Enw llawn?
- Postiadau sy'n dangos dy fod ti oddi cartre?

- Gall unigolion ddefnyddio'r math yma o wybodaeth i 'ddwyn dy hunaniaeth' a chael cardiau credyd, benthyciadau ac ati yn dy enw

### Cynnwys Niweidiol

Os wyt ti wedi gweld cynnwys niweidiol amdanat ti neu am rywun arall, p'un ai bygythiadau, bwlio, awgrymiadau rhywiol digroeso, cofia roi gwybod am hynny. I gael rhagor o wybodaeth, cer i:

- **https://reportharmfulcontent.com/**

## Chwarae Gêmau Ar-lein

- Paid â defnyddio dy enw iawn ar gyfrifon chwarae gemau
- Bydd yn ofalus wrth ddatgelu gwybodaeth bersonol pan fyddi di'n chwarae mewn cymuned fawr ar-lein
- Gwylia rhag sgamiau wrth brynu pecynnau mewn gêmau

### HELP!!

Os wyt ti'n meddwl bod rhywun yn defnyddio dy ddata drwy dwyll, cysyllta â'r canlynol:

Dy Gyngor ar Bopeth lleol

- **https://www.actionfraud.police.uk/**

NEU

- **https://www.victimsupport.org.uk/crime-info/types-crime/fraud**

## Beth alla i wneud?

- Gwiria'r gosodiadau preifatrwydd ar dy gyfrif
- Wyt ti'n postio i'r cyhoedd?
- Wyt ti'n postio i ffrindiau yn unig?
- Cer drwy dy restr o ffrindiau a dileu'r rhai dwyt ti ddim yn siarad â nhw erbyn hyn
- Gwiria'r gosodiadau preifatrwydd ar bob cyfrif unigol sydd gen ti ar y cyfryngau ymdeithasol
- (edrych ar y rhestr ar y chwith) neu cer i:

**www.internetmatters.org**

**https://www.saferinternet.org.uk/advice-centre/young-people/resources-11-19s**